ATODLEN 2

GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER LLADD ANIFEILIAID AC EITHRIO MEWN LLADD-DAI

# RHAN 1

## Rhagarweiniol

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon, ystyr "anifail" ("*animal*") yw anifeiliaid carngaled, cilgnowyr, moch, cwningod, dofednod neu ratidau.

**Cwmpas**

**2.**—(1) Mae'r Atodlen hon yn gymwys i'r canlynol—

(a) lladd anifeiliaid mewn iard gelanedd;

(b) lladd dofednod neu gwningod ar y fferm at y diben o gyflenwi meintiau bach o gig gan y cynhyrchwr yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi cig o'r fath yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol fel cig ffres yn unol ag Erthygl 11; ac

(c) lladd anifeiliaid ac eithrio mewn lladd-dy neu yn yr amgylchiadau a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b).

(2) Ond yn achos anifeiliaid a leddir yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (1)(c)—

(a) nid yw Rhannau 2 a 3 yn gymwys; a

(b) nid yw Rhan 4 yn gymwys oni leddir yr anifail drwy waedu.

**Esemptiadau**

**3.**—(1) Nid oes dim yn yr Atodlen hon sy'n gymwys i'r canlynol—

(a) lladd anifail mewn lladd-dy;

(b) lladd anifail at y diben o reoli clefyd, oni chaiff ei stynio gan follt gaeth dreiddiol neu drydanu, ac mewn achos o'r fath, rhaid stynio'r anifail yn unol â pharagraffau 34, 37 neu 38 o Ran 5 (yn ôl fel y digwydd);

(c) lladd mochyn, dafad neu afr gan berchennog yr anifail ar gyfer ei fwyta gartref yn breifat gan y perchennog, oni chaiff yr anifail ei ladd drwy waedu, ac mewn achos o'r fath, rhaid stynio'r anifail a'i waedu yn unol â Rhan 5; neu

(d) lladd cywion dros ben sy'n iau na 72 awr oed neu embryonau mewn gwastraff deorfa, ar yr amod y cydymffurfir â pharagraff 44.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "rheoli clefyd" ("*disease control*") yw rheoli, gan yr awdurdod cymwys, unrhyw glefyd sy'n hysbysadwy gan neu o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) neu'n unol ag unrhyw rwymedigaeth UE.

(**1**) 1981 p.22.